



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Chwefror 2017 am 6.00yh
yn yr Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 February 2017 at 6.00pm
at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors Clive Davies (**yn y gadair/in the chair**),
John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Richard Jones, Jane Roche, Akira Shimazaki.

AGENDA

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol. The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Clive Davies, bawb i'r cyfarfod. Dymunodd y gorau i ohebydd y "Tivy-Side", Ms Enfys Bosworth, ar ei dyrchafiad i swydd gyffelyb ym Manceinion.

Llongyfarchodd a diolchodd i gyfieithydd-ar-y-pryd y cyngor, Mrs Llinos Davies, ar gyrraedd deng mlynedd o wasanaeth clodwiw i Gyngor Tref Aberteifi. Llongyfarchodd hefyd Ysgol Uwchradd Aberteifi ac Ysgol Gynradd Aberteifi ar gael eu dyrchafu i gategori gwyrdd yn dilyn archwiliad Estyn yn ymarferion bandin ysgolion Llywodraeth Cymru. Cytunwyd anfon llythyr i longyfarch y ddwy ysgol.

The Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed everyone to the meeting. He wished Ms Enfys Bosworth, the "Tivy-Side" reporter, well in her new role in Manchester. He thanked and congratulated the council's simultaneous translator, Mrs Llinos Davies, on her excellent service to the council for ten years. Congratulations were extended to Ysgol Uwchradd Aberteifi and Ysgol Gynradd Aberteifi on being upgraded to the green category of the Estyn inspection in the Welsh Government school banding exercise. It was agreed to forward letters of commendation to both schools.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Mark Cole (*gwaith/work*), Ken Edwards (*gwaith/work*), Graham Evans (*gwyliau/holidays*), Melfydd George (*anhwylus/unwell*), Gwynfi Jenkins (*anhwylus/unwell*), Catrin Miles (*gwyliau/holidays*).

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.</i>
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	<i>Eitem / Item 11[257]: 4CG Cymru 2010 Cyf.</i>
Y Cyng. / Cllr Richard Jones	<i>Eitem / Item 11[257]: 4CG Cymru 2010 Cyf.</i>

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 3 Ionawr.

Confirmation of Minutes of 3 January Council Meeting.

Tud. 1194, eitem 5: Bydd staff gweinyddol y cyngor sir yn swyddfeydd "Canolfan Teifi" ac nid "Stryd Morgan".

Page 1194, item 5: The county council administrative staff will now commence their work at the offices in "Canolfan Teifi" not "Morgan Street".

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y cofnodion yn gywir.

With the above amendment, Cllr John Adams-Lewis proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr. Jane Roche.

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Cyllideb y Cyngor 10 Ionawr.

Confirmation of Minutes of 10 January Council Budget Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod y cofnodion “mewn pwyllgor” yn gywir.

Cllr Dai Brabrook proposed that the “in committee” minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr. John Adams-Lewis.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1194, eitem 5: Caiff y mater ynglŷn â'r meysydd parcio ei drafod ar ymweliad nesaf Elin Jones AC ag Aberteifi.

Tud. 1195, eitem 8 (Taliadau): Mae'r anghydfod ynglŷn â thalu costau cyfreithiol paratoi prydles Cae Pentop yn parhau.

Tud. 1195, eitem 9(a)(ii): Dywedodd y Maer ei fod wedi anfon yr wybodaeth ymlaen i Fasnachwyr Aberteifi yn hysbysu bod grantiau ar gael hyd at £750 i gynorthwyo gydag arwyddion dwyieithog.

Tud. 1195, eitem 9(b)(i): Cafwyd adroddiad gan y Maer o'r cyfarfod gyda Theatr Byd Bychan a Chymdeithas Aberteifi Society; yn anffodus nid yw'n bosibl symud ymlaen i drefnu Carnifal eleni ond mae syniadau da ar y gweill i gynnal un yn 2018.

Tud. 1197, eitem 10[215]: Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis gysylltu â Mrs Gaynor Toft ynglŷn ag anfon gwybodaeth at berchenogion yr adeiladau.

Page 1194, item 5: The issue regarding parking charges will be discussed during Elin Jones AM's next visit to Cardigan.

Page 1195, item 8 (Payments): The issue regarding the payment of legal costs for the Pentop Playing Field lease remains unresolved.

Page 1196, item 9(a)(ii): The Mayor stated that he had forwarded the information to Cardigan Traders regarding the availability of grants up to £750 for translation costs.

Page 1196, item 9(b)(i): The Mayor reported on his recent meeting with Small World Theatre and Cymdeithas Aberteifi Society regarding the future of the Carnival in Cardigan. Problems were anticipated for this year but positive ideas were discussed for hosting the Carnival in 2018.

Page 1197, item 10[215]: Cllr Adams-Lewis agreed to pursue the matter of informing landlords of their responsibility regarding the control of pigeons with Mrs Gaynor Toft.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiadur y Maer i'r holl aelodau yn y cyfarfod.

The Mayor's diary was distributed to all members at the meeting.

8. Cynllunio / Planning:

Rhify Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A170043	Unit 6 Parc Teifi Business Park	Extend the retail area by adding a new first floor area. Extend storage area by adding a new first floor to include shower room. Extend building to create a café.	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> The council has no objection.
A170097	Tegryn, 8 Brecon Terrace	<i>Estyniad a newidiadau</i> Extension and alterations	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
26/1/17	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor/</i> Rent of Council Office (Ionawr / January). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room</i> (3, 10, 17 Ionawr / January)	A9	D/D	£250.00 (0.00)
	<i>Band Lydan (Chwefror) / Broadband (February)</i>	A9	4359	£75.00 (0.00)
		A20	4359	£20.00 (0.00)

31/1/17	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Ion./Jan.)</i>	A3	4360	£748.90 (0.00)
25/1/17	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd.</i> Simultaneous translation (3 & 10/1/17)	A18	4361	£126.60 (0.00)
10/1/17	Telemat: <i>Ailgofrestru enw parth trefaberteifi@cymru</i> Re-registration of email trefaberteifi@cymru	A20	4362	£17.40 (2.90)

Cynigiodd y Cyng. Dai Brabrook bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Akira Shimazaki.

Cllr Dai Brabrook proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Akira Shimazaki.

Derbyniadau/Receipts:

9/12/16	<i>Llog y Banc / Bank interest</i>	£2.05
7/2/17	<i>Cronfa'r Maer/Mayor's Fund: Indoor Market</i>	£40.00

10. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) **Mynychodd y Cyng. Adams-Lewis gyfarfod ym Mhenmorfa yn ddiweddar yn ymwneud ag Arolygon Etholiadol (Polisi ac Arfer 2016) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori ynglŷn â diwygio llywodraeth leol ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Awgrymir ar hyn o bryd y bydd Tref Aberteifi wedi ei huno'n un ward a chanddi ddau gynghorydd sir.**
- (ii) **Mynegodd y Cyng. Adams-Lewis ei siom bod Llywodraeth Cymru yn gosod cyrbiau yn unig ar y ffordd i'r gogledd o Heol Caemorgan. Awgrymodd bod y cyngor yn ysgrifennu at Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith Llywodaeth Cymru, yn lleisio barn gref am nad oes llwybr addas i seiclwr a cherddwyr, yn bennaf am resymau diogelwch.**
- (iii) **Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod grŵp preswylwyr Maesglas yn cynnal cyfarfod heno (7/2/17) i drafod y cam ymlaen ynglŷn â maes chwarae yr ystad.**

(b) Y Cyng. Mark Cole (in absentia):

- (i) **Yn dilyn cyfarfod agoriadol defnyddiol gyda phreswylwyr lleol, mynegodd y Cyng. Cole ei obeithion am ailsefydlu'r Carnifal yn y dref. Dangoswyd diddordeb gan Gymdeithas Aberteifi Society i arwain y trefniadau i geisio am grantiau, a gobeithir gweld Theatr Byd Bychan yn cymryd arweiniad creadigol fel y gwnaethpwyd gyda Gorymdaith y Llusernau adeg y Nadolig. Dymunodd y Cyng. Cole ddiolch i glerc y cyngor am baratoi'r posteri i'r cyfarfod.**
- (ii) **Adroddwyd gan y Cyng. Cole bod y golau tu ôl i stordy Aldi yn gweithio eto ond bod dau olau arall yn y cyffiniau yn camweithio. Mae'r Cyng. Cole wedi cysylltu â'r cyngor sir yn Aberaeron ynglŷn â hyn.**
- (iii) **Mynychodd y Cyng. Cole gyfarfod cychwynnol Croeso Teifi ar 2 Chwefror; roedd yn bles bod tua 25 o bersonau'n bresennol.**

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) **Cllr Adams-Lewis attended the Electoral Reviews (Policy and Practice 2016) Local Democracy and Boundary Commission for Wales meeting at Aberaeron recently. The Commission will consult mandatory consultees on its intended procedure for the review regarding the appropriate number of members for any principal council – the new arrangements to be put into place for the 2022 local government elections. It is recommended that Cardigan Town will be reduced to a single ward with two county councillors.**
- (ii) **Cllr Adams-Lewis expressed his disappointment that the Welsh Government had organised kerb only placement on the length of the TA487 highway north of Caemorgan Road. He recommended that the council writes to Ken Skates AM, Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure of the Welsh Government, voicing the strong protestations of the town council to this omission of a cycle path, primarily for the safety of cyclists and pedestrians.**
- (iii) **Cllr Adams-Lewis informed the council that the Maesglas group was presently holding a meeting (7/2/17) to discuss the way forward to retain the play area on the estate.**

(b) Cllr Mark Cole (in absentia):

- (i) Cllr Cole commented on the hopes that a Carnival can be resurrected in town after a useful initial meeting recently with interested local residents. Cymdeithas Aberteifi Society has shown a willingness to lead on applying for funding applications and it is hoped that Small World Theatre may take a creative lead as they did with the lantern parade. Cllr Cole placed on record his thanks to the town clerk for preparing the posters to promote the meeting.
- (ii) Cllr Cole reported that the street light behind Aldi is now functioning once more but that two other street lights in the same area have been out of order. Cllr Cole has reported these lights to the county council in Aberaeron.
- (iii) Cllr Cole stated that he attended the inaugural meeting of Croeso Teifi on 2 February and was very pleased to see a turnout of almost 25 persons present.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
226	CSC / CCC (Jon Hadlow): <i>Eglurhad am gyfrifoldeb cyngor y dref tuag at blannu coed yn Netpwl.</i> Explanation to the town council of the conditions imposed if trees are planted in the Netpool area.	<i>Dywedodd y Cyng. Jane Roche bod Grŵp Netpwl yn barod i weithredu anghenion y cynllun i blannu coed a bod hithau yn barod i'w gynorthwyo. Disgwylir i'r coed gyrraedd ym mis Mawrth. Mae Mr Jon Hadlow a Ms Catherine Morgan yn barod iawn gyda'u cyngor a'u cymorth ymarferol.</i> Cllr Roche indicated that the Netpool Group has agreed to take responsibility for the tree planting scheme and that she was agreeable to assist with the administration. Delivery of the trees is expected in March. Mr Jon Hadlow and Ms Catherine Morgan agreed to advise and assist with the scheme.
227	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Ardal Teithio Llesol Aberteifi T2425 – Cronfa Trafnidiaeth Leol 2017-18: Cais am grant oddi wrth Gyngor Tref Aberteifi.</i> T2425 Cardigan Active Travel Area 0150 Local Transport Fund 2017-18: Application for a grant from Cardigan Town Council.	<i>Gwerthfawrogiad am gytuno i gyfrannu £5,000 tuag at y cynllun.</i> Acknowledgement of the council's agreement to donate £5,000 towards the scheme. The scheme includes traffic calming at the Bro Teifi complex entrance, widening the pavement at the Napier Gardens/Napier Street corner, dropped kerb opposite Tesco, and widening of the Pontycleifion pavement.
228	CSC / CCC (Lowri Edwards): <i>Adolygiad Etholiadol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.</i> Local Democracy and Boundary Commission for Wales Electoral Review.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 17/11/17. <i>Mae'r hysbysiad wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> The notice has been displayed in the notice board.
229	CSC / CCC (Marianne De Vries): <i>Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Dadlwytho.</i> Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Unloading. Feidrfair – 20/2/17 for 18 months.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 17/1/17.
230	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Prioery Street, High Street (Gorymdaith y Tystio / Walk of Witness) – 11.30-12.00 14/4/17.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 31/1/17.
231	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Stryd y Santes Fair Uchaf / Upper St Mary Street: gully replacement, 20/3/17 - 31/3/17</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 27/1/17.
232	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Stryd y Santes Fair Isaf / Lower St Mary Street: Repairs to road drain pipe, 13/3/17 – 17/3/17</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 27/1/17.
233	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Stryd y Santes Fair Isaf / Lower St Mary Street: Dŵr Cymru / Welsh Water, 14/2/17 – 15/2/17</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 27/1/17.
234	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Pwllhai: Adnewyddu pibell draen yn y ffordd.</i> Replacing road drain pipe, 6/3/17 – 10/3/17	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 27/1/17.
235	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Ymgynghoriad Map Rhwydwaith Integredig.</i> Integrated Network Map Consultation. <i>I'w drafod yn is-bwyllgorau 21/2/17.</i> To be discussed at the 21/2/17 sub-committees.	<i>Bydd y map yn nodi rhaglen o welliannau dros 15 mlynedd i lwybrau teithio llesol yn y sir.</i> The map will set out a 15-year programme of improvements to active travel routes in the county. Further information on the CCC website.

236	CSC / CCC (Tom-Delph-Janiurek): <i>Arwydd newydd i lôn Caemorgan.</i> New sign cautioning heavy vehicles traversing the Caemorgan lane.	<i>Mae'r penderfyniad i osod arwydd newydd ar y briffordd yn dderbyniol i bawb.</i> The decision to place a new sign on the main road is acceptable to all parties.
237	CSC / CCC (Gerwyn Jones): <i>Ymateb negyddol i gais y cyngor am osod bin sbwriel ar Rodfa'r Felin.</i> Negative response to the town council's request to place a litter bin on Rhodfa'r Felin.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
238	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Y cyngor sir yn gofyn am gadarnhad y bydd y gwaith ar Gae Pentop wedi ei gwblhau erbyn 31/3/17.</i> County council requesting confirmation that the work on Cae Pentop will be completed by 31/3/17.	<i>Copi wedi ei drosglwyddo i'r Cyng. Catrin Miles.</i> Copy forwarded to Cllr Catrin Miles
239	CSC / CCC (Jon Hadlow): <i>Ymateb i gais cwmni 4CG i blannu blodau gwyllt yn Netpwl.</i> Response to a request from 4CG to plant wild flowers in Netpool.	<i>Mae cwmni 4CG yn barod i drefnu'r cynllun.</i> 4CG is prepared to organise the scheme. <i>Cytunwyd anfon llythyr o gefnogaeth at Mr Jon Hadlow oddi wrth gyngor y dref.</i> A letter of support to be forwarded to Mr Jon Hadlow from the town council.
240	CSC / CCC (Eifion Jones): <i>Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion.</i> Annual Report of the Ceredigion Local Access Forum (for the improvement of public access for the purpose of open-air recreation and enjoyment).	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 7/2/17.
241	CSC / CCC (Age Cymru Ceredigion): <i>Digwyddiad 50+ Byw yn Dda.</i> 50+ Living Well Event, 1/3/17, Guildhall, 2.00-5.00pm.	<i>Mae'r posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Posters have been displayed in the notice board. <i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 7/2/17.
242	<i>Cyfres o lythyron yn apelio yn erbyn datblygiad cwmni Tai Ceredigion ym Maesglas.</i> Series of letter appealing against the proposed Tai Ceredigion Ltd development at Maesglas: Mrs G. Jones (Boncath); Ms Susan Mortimer (Pen-y-bryn); Mr & Mrs T. Burton (Cardigan).	<i>I'w trafod yn yr is-bwyllgorau, 21/2/17.</i> To be discussed at the 21/2/17 sub-committees.
243	St John Ambulance Cardigan Division: <i>Gwerthfawrogaid o gyfraniad cyngor y dref.</i> Acknowledgement of town council donation.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
244	Mrs Ann Stokoe: <i>Gwerthfawrogiad o lythyr oddi wrth y cyngor yn ei chyfarfod ar ei hymddeoliad o gwmni Menter Aberteifi.</i> Appreciation of the council's letter wishing her well on her retirement from Menter Aberteifi.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
245	Mark Williams AS/MP: <i>Poster o'i gymorthfeydd.</i> Poster of Mr Williams' local surgeries	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed in the notice board.
246	<i>Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru: Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion.</i> Local Democracy and Boundary Commission for Wales: Review of the Electoral Arrangements for the County of Ceredigion.	<i>Mae'r cyfnod ymgynghorol o 26 Ionawr hyd 19 Ebrill.</i> The consultation period: 26 January until 19 April. <i>I'w drafod yn is-bwyllgorau 21/3/17.</i> To be discussed at the 21/3/17 sub-committees.
247	Courtstall Services: <i>Pris am beintio'r llinellau ar y cyrtau tenis.</i> Quotation for the painting of lines on tennis courts.	<i>Cytunwyd archebu'r gwaith.</i> It was agreed to paint the lines. Proposer: Cllr Adams-Lewis, seconder: Cllr Dai Brabrook
248	Mrs Sarah Davies: <i>Ymateb i ebost oddi wrth y cyngor ynglŷn ag amserlen.</i> Response regarding the timetable of the use of the multi-purpose play area for the training of Mr Davies' guide dog.	<i>Cytunwyd gyda'r argymhelliad i ganiatáu defnydd o'r safle i Mr Davies.</i> It was agreed to allow Mr Davies use of the location. Proposer: Cllr Akira Shimazaki, seconder: Cllr Jane Roche.
249	Menter Aberteifi: <i>Hysbysiad o gyfarfod sefydlu wi-fi yn y dref.</i> Notice of meeting to advertise the installation of a wi-fi system in town, 23/2/17, Corn Exchange, 6.00-8.00pm	<i>Nodwyd.</i> Noted.
250	Save the Children Fund: <i>Ebost oddi wrth drefnydd yr elusen yn cadarnhau bod £3,073,510 wedi ei godi'n genedlaethol ar y diwrnod.</i> Confirmation that the above sum was raised nationally on the occasion of Jumper Day.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
251	Ms Marie De'ath, Canolfan Meugan, Bro Teifi: <i>Cwyn nad yw'r lifft yn gweithio yng Nghanolfan Teifi.</i> Complaint that the lift is out of commission in Canolfan Teifi.	<i>Cytunwyd anfon gwybodaeth i Mrs De'ath bod defnydd lifft i'r Llyfrgell o Bendre.</i> It was agreed to inform Mrs De'ath that the lift was in commission from Pendre to the library.

252	Cymrodorion Aberteifi a'r Cylch: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i ginio Gŵyl Ddewi.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to the St David's Day dinner, Cliff Hotel, 24/2/17, 7.00pm.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
253	Teenage Cancer Care: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
254	Menter Aberteifi: <i>Cais am gymorth ariannol tuag at yr Ŵyl Afon a Bwyd.</i> Application for financial aid towards the River & Food Festival 2017.	<i>Cytunwyd cyfrannu £500 at Ŵyl Afon a Bwyd 2017.</i> It was proposed by Cllr Richard Jones and seconded by Cllr Akira Shimazaki that £500 be donated to the River & Food 2017 event.
255	Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion YFCs: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
256	<i>Un Llais Cymru: Ffurflen ymaelodi 2017-18.</i> One Voice Wales: Membership form 2017-18.	<i>Cytunwyd peidio ailymuno.</i> It was agreed not to re-register.
257	4CG Cymru 2010 Cyf.: <i>Cais am gymorth ariannol tuag at gynnal a chadw'r toiledau cyhoeddus.</i> Application for financial aid towards the maintenance of public conveniences.	<i>Cytunwyd cyfrannu £8,000 i'r cwmni i gynnal y gwasanaeth yn y dref.</i> It was proposed by Cllr Jane Roche and seconded by Cllr Dai Brabrook that £8,000 be donated to the company to maintain and administer the service.
258	<i>Aren Cymru / Kidney Wales: Taith Dros Fywyd.</i> Walk for Life, 23/4/17	<i>Nodwyd.</i> Noted.
259	Thomas Fattorini Ltd.: <i>Proflen o fedal y Cyn-Faer.</i> Proof of revised wording for "Cyn-Faer" insignia plus revised quotation.	<i>Cytunwyd ar y geiriad ac i'r clerch archebu pum medal.</i> It was proposed by Cllr Jane Roche and seconded by Cllr Dai Brabrook that five insignias be purchased.
260	Cymanfa Ganu Gyd-Enwadol Cylch Aberteifi: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu'r Gymanfa yng Nghapel Mair, 16/4/17 am 6.30yh.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Cymanfa at Capel Mair.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.

Ann Jones:	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closure Section</i>
Eifion Jones:	<i>Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Arfordir a Chefnwlad</i> Public Rights of Way Officer – Coast and Countryside
Gari Jones:	<i>Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth / Assistant Engineer Transport Strategy</i>
Gerwyn Jones:	<i>Rheolwr Strydlun Trefol / Urban Streetscene Manager</i>
Jon Hadlow:	<i>Rheolwr Gerddi a Blodau / Grounds Maintenance Manager</i>
Lowri Edwards:	<i>Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Democrataidd / Group Manager – Democratic Services</i>
Marianne De Vries:	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Section</i>
Stephen Johnson:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service</i>
Tom Delph-Janiurek:	<i>Rheolwr/Beiriannydd Rheoli Trafnidiaeth / Senior Engineer Traffic Management</i>

12. Adolygiad yr Asesiad Risg / Review of the Risk Assessment

Copi wedi ei flaenyrru drwy e-bost, 27/1/17.

Copy forwarded by e-mail on 27/1/17.

Cyflwynodd y clerch ddogfen y Risg Asesiad i'r aelodau. Yn dilyn trafodaeth fer, cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Jones bod cynnwys y ddogfen yn gywir. Roedd pawb yn gytûn. Arwyddwyd y ddogfen gan y Maer a'r clerch.

The clerk presented a copy of the schedule to the council. After a short discussion, it was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Richard Jones that the full content of the schedule be accepted as correct. All members were in favour. The document was duly signed by the Mayor and clerk.

13. Adolygiad Cynllun yr Iaith Gymraeg / Review of the Welsh Language Scheme

Copi wedi ei flaenyrru drwy e-bost, 27/1/17.

Copy forwarded by e-mail on 27/1/17.

Cyflwynodd y clerch ddogfen Cynllun yr Iaith Gymraeg i'r aelodau. Yn dilyn trafodaeth fer, cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod cynnwys y ddogfen yn gywir. Roedd pawb yn gytûn. Arwyddwyd y ddogfen gan y Maer.

The clerk presented a copy of the Welsh Language Scheme to the council. After a short discussion, it was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Jane Roche that the full content of the document be accepted as correct. All members were in favour. The document was duly signed by the Mayor.

14. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 17 Ionawr.

Confirmation of 17 January Sub-committee Minutes.

Cynigiodd y Cyng. Akira Shimazaki bod cofnodion 17 Ionawr yn rhai cywir; eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis.

Cllr Akira Shimazaki proposed that the minutes of 17 January be accepted as correct; seconded by Cllr John Adams-Lewis.

Materion yn codi Matters arising:

Tud. 1204, eitem (*Pyst pêl-droed*): Mae'r Cyng. Dai Brabrook wedi siarad â rheolwr cwmni Jewson a disgwylir i swyddog y clwb pêl-droed gysylltu ag ef i wneud trefniadau pellach.

Page 1204, item (*football posts*): Cllr Dai Brabrook had discussed the issue with the manager of Jewson and a visit is advised by an official of the football club.

***Menter Aberteifi*: Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 27/2/17.**

Menter Aberteifi: The next meeting will be held on 27/2/17.

***Cymdeithas Aberteifi Society*: Cynhaliwyd cyfarfod yr ymddiriedolwyr ar 31 Ionawr. Trafodwyd arwyddion y dref, mapio 3D a hefyd app i daith dreftadaeth y dref.**

Cymdeithas Aberteifi Society: A trustee meeting was held on 31 January. The town finger posts, 3D mapping and the heritage trail app were discussed.

***Cyngor Ieuenctid*: Cynhelir noson i ddathlu Ieuenctid Aberteifi nos Iau, 16 Mawrth am 7.00yh yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr tan oruchwyliaeth y Cyng. Jane Roche.**

Youth Council: An evening to celebrate the Youth of Cardigan will be held on Thursday, 16 March at 7.00pm at Fisherman's Rest under the direction of Cllr Jane Roche.

***Maes Sgrialu*: Mae'r pwyllgor yn symud ymlaen i hel grantiau a hefyd amryw ffyrdd i godi arian.**

Skateboard Park: The committee is pursuing methods of grant funding and other fund-raising events.

***Castell Aberteifi*: Mae'r cynllun busnes a marchnata wedi ei gymeradwyo. Gwelir rhestr o weithgareddau'r flwyddyn ar y wefan.**

Cardigan Castle: The business and marketing plan has been approved. A timetable of the year's events can be viewed on the website.

15. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) Y Cyng. / Cllr Akira Shimazaki:

Croesfan ger Aldi, Ffordd Aberystwyth.

Pedestrian crossing at Aldi, Aberystwyth Road.

Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis wneud ymholiadau gydag adran briffyrdd y cyngor sir.

Cllr Adams-Lewis agreed to discuss the possibility with the highways department of the county council.

(b) Cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd yn dilyn damwain ym maes parcio Pendre.

A complaint has been reported by a member of the public following her fall in the Pendre car park due to the parking bay bollards being left on the ground. Only three are in situ. The clerk has forwarded the email and accompanying photographs from the complainant onto Technical Services on 19 January and again on 2 February.

Mae'r adran yn awr wedi ymateb gan sicrhau y byddant yn archwilio'r broblem.

The department has now responded and will inspect the potential hazard of the remaining bollards to pedestrians as soon as possible.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.47yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.47pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date